



Adroddiad Arolygu ar gyfer

Y Gilwen

Caernarfon

This report is also available in English

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

6 Medi 2022

Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.

Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.

Ynglŷn â'r Gilwen

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion heb ofal nyrsio
Darparwr cofrestredig	Prestwood Residential Homes Ltd a CareTech Community Services Limited
Lleuedd cofrestredig	6
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	Dyma arolygiad cyntaf y gwasanaeth ers ei ailgofrestru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg ac yn dangos ymdrech sylweddol i hyrwyddo defnydd o'r Gymraeg a'i diwylliant.

Crynodeb

Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i gyflawni canlyniadau cadarnhaol o ran eu hiechyd corfforol a'u llesiant meddyliol. Mae hyn oherwydd bod y gweithwyr gofal yn gwybod ac yn deall anghenion unigol y bobl. Mae cynlluniau personol manwl a chyfredol yn arwain gweithwyr gofal ynghylch y ffordd orau o gefnogi'r bobl ac annog annibyniaeth. Defnyddir asesiadau risg yn briodol i reoli risgiau hysbys i ddiogelwch y bobl, wrth hyrwyddo cymryd risgiau cadarnhaol hefyd. Mae'r bobl yn cyd-dynnu â'r gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi a chyda'r rheolwr. Mae'r gweithwyr gofal yn cael eu recriwtio'n ddiogel ac yn cael hyfforddiant a chymorth priodol yn eu rolau. Mae'r darparwr wedi sicrhau bod trefniadau ar waith i fonitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd, sy'n cynnwys ymgynghori â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'r llety a ddarperir yn gartrefol ac ar y cyfan yn cefnogi llesiant y bobl. Byddai cael mynediad i'r ardd yn gwella llesiant y bobl ymhellach. Nid yw'r prosesau sydd ar waith i fonitro diogelwch yr amgylchedd yn gadarn, ac mae angen gwelliannau yn y maes hwn o'r gwasanaeth.

Llesiant

Gall y bobl dderbyn eu gofal a chymorth yn eu dewis iaith. Mae'r Gymraeg yn cael ei chydabod a'i pharchu fel rhan o hunaniaeth y bobl ac mae darparu staff sy'n siarad Cymraeg yn weithred gadarnhaol tuag at ddarparu Cynnig Rhagweithiol y Gymraeg. Gall sawl aelod o'r staff sy'n gweithio yn y gwasanaeth, a'r rheolwr, sgwrsio'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae hyn yn golygu y gall y bobl fynegi eu hanghenion, eu teimladau a'u dymuniadau yn yr iaith y maent yn teimlo'n fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio. Mae rhai dogfennau ar gael yn Gymraeg, ond gellid datblygu hyn ymhellach gyda chynlluniau personol ac asesiadau risg yn cael eu darparu yn Gymraeg.

Darperir cymorth i hybu iechyd corfforol a meddyliol y bobl. Mae cynlluniau personol yn cofnodi'n fanwl anghenion gofal iechyd y bobl a sut y dylid eu diwallu. Mae trefniadau ar waith i'r bobl gael eu meddyginiaeth fel y rhagnodir, sy'n helpu i gynnal eu hiechyd. Anogir y bobl i geisio cyngor iechyd proffesiynol, pan fo angen, a cheisir apwyntiadau ar ran y bobl, pan fo'n briodol.

Caiff y bobl eu trin ag urddas a pharch. Gwneir ymdrechion i feithrin cydberthnasau gweithio da rhwng y bobl a'r gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi. Gwelsom weithwyr gofal yn treulio amser gyda'r bobl, yn gwrando, ac yn rhoi cymorth gyda gweithgareddau o ddydd i ddydd. Mae'r rheolwr yn hawdd mynd ato, ac mae'r bobl yn teimlo'n gyfforddus yn dod i'r swyddfa a siarad â'r rheolwr pryd bynnag y dymunant. Mae'r gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn canmol y cymorth y mae'r bobl yn ei gael, a'r canlyniadau cadarnhaol y mae'r bobl yn eu cyflawni o ganlyniad.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i wneud y pethau maen nhw'n eu mwynhau, sy'n gwella eu hymdeimlad o lesiant. Mae lefelau staffio yn galluogi'r bobl i gael cymorth i gymryd rhan mewn gweithgareddau cymdeithasol, sy'n helpu'r bobl i deimlo'n rhan o'u cymuned leol. Mae'r staff yn gwybod am ddiddordebau a hobiau'r bobl ac mae'r rhain yn cael eu cofnodi yng nghynlluniau personol y bobl. Mae sgysiau parhaus gyda'r bobl ynghylch yr hyn yr hoffent ei wneud. Gwneir trefniadau i hwyluso cyfranogiad y bobl mewn cyrsiau addysgol, pan fo angen.

Gofal a Chymorth

Mae cynlluniau personol yn nodi'n fanwl iawn sut y caiff llesiant ac anghenion gofal a chymorth y bobl eu diwallu. Mae cynlluniau personol yn dangos bod y bobl yn cymryd rhan mewn trafodaethau ynghylch sut y maent yn dymuno cael eu cefnogi. Mae hoff bethau a chas bethau pob person a'u trefn ddyddiol o ddewis yn cael eu cofnodi'n fanwl. Mae hyn yn helpu'r gweithwyr gofal i ddod yn gyfarwydd â dewisiadau unigol y bobl ac yn cynorthwyo gyda pharhad y cymorth a ddarperir. Hyrwyddir annibyniaeth ac anogir gosod nodau. Mae dogfennau gofal yn cael eu hadolygu a'u diweddar'u'n brydlon yn dilyn unrhyw newidiadau yn anghenion iechyd a chymdeithasol y bobl. Rhennir newidiadau yn anghenion y bobl yn briodol gyda'r comisiynwyr a chymerir camau pan na all y gwasanaeth ddiwallu anghenion pobl mwyach.

Mae gan y bobl gydberthnasau da â'r gweithwyr gofal sy'n eu cefnogi, a'r rheolwr. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod y bobl yn gyfforddus yn mynegi eu barn a'u teimladau gyda'r gweithiwr gofal yn eu cefnogi, a chafwyd ymateb priodol.

Mae trefniadau ar waith i alluogi a chefnogi'r bobl i fod yn iach ac i gael mynediad at gymorth iechyd a gofal cymdeithasol. Mae cofnodion ar gael ynghylch yr apwyntiadau iechyd a fynychwyd ac mae gwybodaeth ar gael am ganlyniad yr apwyntiad a'r arweiniad proffesiynol a dderbyniwyd. Mae apwyntiadau gyda gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn cael eu hwyluso, sy'n galluogi'r bobl i aros yn iach.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i dderbyn eu meddyginiaethau fel y'u rhagnodir, ac mae hyn yn eu cynorthwyo i reoli eu cyflyrau iechyd. Mae trefniadau ar waith i roi meddyginiaeth yn ddiogel ac yn unol â phresgripsiynau'r bobl. Cynhelir archwiliadau meddyginiaeth yn rheolaidd, sy'n sicrhau bod goruchwyliaeth gan reolwyr ar bob agwedd ar reoli meddyginiaeth yn y gwasanaeth.

Mae'r bobl yn elwa ar y safonau rheoli heintiau da sydd ar waith. Cymerir camau i reoli a lleihau lledaeniad heintiau, sy'n cynnwys cymryd camau i sicrhau bod ymwelwyr yn ddiogel i gael mynediad i'r cartref. Gofynnwyd i ni ddangos canlyniad prawf COVID-19 negatif cyn i ni gael mynediad i'r adeilad.

Mae systemau ar waith i ddiogelu ac amddiffyn pobl rhag niwed. Mae polisi diogelu ar waith sy'n rhoi arweiniad clir ynghylch cyfrifoldeb y gweithwyr gofal i adrodd am unrhyw bryder ynghylch lles y bobl. Mae'r gweithwyr gofal yn cael hyfforddiant diogelu sy'n cefnogi eu dealltwriaeth o'r hyn sy'n gamdriniaeth a'r hyn y dylent ei wneud os ydynt yn amau neu'n dyst i gamdriniaeth.

Yr Amgylchedd

Darperir gofal a chymorth mewn amgylchedd sy'n hybu llesiant y bobl a'u hymdeimlad o berthyn. Mae'r adeilad a'r cyfleusterau fel y'u disgrifir yn y datganiad o ddiben. At ei gilydd, mae tu mewn yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ac mae'n darparu amgylchedd byw cartrefol a chyfforddus. Dywedodd y rhan fwyaf o'r bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn hapus gyda'u hystafelloedd eu hunain a chadarnhawyd hefyd eu bod wedi bod yn rhan o ddewis yr addurniadau a'r dodrefn. Dywedodd un person wrthym ei fod yn pryderu am ran fach o'r wal yn ei ystafell, a gwelsom fod angen ei hatgyweirio. Roedd y carped ar y grisiau ac ar ben y grisiau hefyd yn dangos ôl traul. Buom yn trafod y ddau fater gyda'r sawl sy'n gweithredu fel yr unigolyn cyfrifol ar hyn o bryd yn ystod ein hymweliad a chymerodd gamau ar unwaith i fynd i'r afael â'r ddau fater hyn.

Mae gofod tu allan ar gael, gyda mannau eistedd yn cael eu darparu. Gwelsom fod y bobl wedi plannu blodau mewn potiau o fewn y cwrt, ac roedd hyn yn dod â lliw i brif fynedfa'r cartref. Mae gardd ar gael hefyd, ond mae angen rhoi sylw i'r ardal hon er mwyn i'r bobl sy'n byw yn y gwasanaeth allu mynd ati a'i mwynhau. Buom yn trafod yr ardd gyda'r sawl sy'n gweithredu fel yr unigolyn cyfrifol ar hyn o bryd yn ystod ein hymweliad. Cymerodd gamau ar unwaith i fynd i'r afael â'r gwaith oedd ei angen yn yr ardd.

Mae angen gwelliannau i'r gwiriadau iechyd a diogelwch a gwblhawyd yn y gwasanaeth. Gwelsom fod angen gwasanaethu offer nwy yn y gwasanaeth ar ddiwrnod ein hymweliad gan fod y gwaith hwn yn hwyr. Cymerwyd camau ar unwaith gan y rheolwr i fynd i'r afael â hyn yn ystod ein hymweliad a chynhaliwyd gwasanaeth nwy y diwrnod ar ôl yr ymweliad. Roedd cofnodion a welwyd yn ystod yr ymweliad yn dangos nad yw tymheredd bwyd yn cael ei wirio bob amser, er mwyn sicrhau bod bwyd wedi'i baratoi yn cael ei weini ar y tymheredd cywir. Cymerir a chofnodir tymhereddau dŵr, ond ni chymerir unrhyw gamau pan fydd tymheredd y dŵr y tu allan i'r ystod ddiogel. Mae tymheredd yr oergell a'r rhewgell yn cael ei gymryd a'i gofnodi, ond ni chymerir unrhyw gamau pan fydd y tu allan i'r ystod ofynnol. Mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Gall y bobl gael mynediad at wybodaeth ysgrifenedig am y gwasanaeth a ddarperir. Mae datganiad o ddiben ar waith sy'n disgrifio'n gywir y gwasanaeth a ddarperir a'r trefniadau sydd ar waith i gefnogi'r gwaith o ddarparu'r gwasanaeth. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen a darperir y gwasanaeth yn unol â'r datganiad o ddiben. Mae canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth ar gael sy'n rhoi rhywfaint o wybodaeth am ddiwylliant ac ethos y gwasanaeth, sut mae'r gwasanaeth yn gweithredu, a'r bobl allweddol sy'n gweithio yn y gwasanaeth. Nid yw'r holl wybodaeth ofynnol wedi'i chynnwys yn y ddogfen hon. Mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau.

Mae trefniadau ar waith i oruchwylio'r gwasanaeth yn effeithiol. Mae prosesau sicrhau ansawdd parhaus ar waith sy'n adolygu safon y gofal a ddarperir ac yn asesu bodlonrwydd y bobl â'r gwasanaeth y maent yn ei dderbyn. Mae'r darparwr wedi penodi rhywun i weithredu fel yr unigolyn cyfrifol wrth i gais i gofrestru'r unigolyn cyfrifol newydd gydag AGC gael ei wneud. Roedd y sawl sy'n gweithredu fel yr unigolyn cyfrifol ar hyn o bryd yn y gwasanaeth yn ystod ein hymweliad ac mae cofnodion yn dangos bod ymweliadau monitro ansawdd blaenorol hefyd wedi'u cynnal yn ddiweddar. Siaradir â'r bobl a'r staff yn ystod ymweliadau monitro ansawdd. Caiff eu safbwyntiau eu cofnodi ac ymatebir iddynt yn briodol.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan wasanaeth sy'n darparu niferoedd digonol o staff, yn ogystal â hyfforddiant addas a chefnogaeth briodol. Mae rheolwr wedi'i benodi sy'n gyfrifol am redeg y gwasanaeth o ddydd i ddydd. Yn ystod ein hymweliad, gwelsom fod y bobl yn teimlo eu bod yn gallu rhannu eu barn a cheisio cymorth gan y rheolwr. Cwblheir gwiriadau cyn i'r staff newydd ddechrau gweithio yn y gwasanaeth i sicrhau eu bod yn addas i weithio gyda phobl agored i niwed. Mae staff newydd yn cwblhau cyfnod sefydlu ac yn cael hyfforddiant priodol i'w cefnogi yn eu rolau. Mae'r staff yn cael sesiynau goruchwylio un-i-un rheolaidd gyda'r rheolwr, yn ôl yr angen. Dywedodd y rheolwr wrthym ei bod yn anodd iawn recriwtio staff newydd ym maes gofal cymdeithasol ar hyn o bryd, a defnyddir staff asiantaeth pan fo angen. Roedd lefelau staffio ar ddiwrnod ein hymweliad yn adlewyrchu anghenion y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth.

Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
Newydd	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
Adolygwyd	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
Ni chyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
Cyflawnwyd	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
57	Nid yw gwiriadau iechyd a diogelwch yn y gwasanaeth yn gadarn ac nid ydynt yn sicrhau bod risgiau posibl yn yr amgylchedd yn cael eu monitro a'u rheoli'n briodol.	Newydd
19	Nid yw'r canllaw i ddefnyddwyr y gwasanaeth yn cynnwys yr holl wybodaeth sy'n ofynnol gan y rheoliadau.	Newydd

Dyddiad cyhoeddi 13 Hydref 2022